

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bupa Dental Care, Caerffili, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 24 Awst 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bupa Dental Care, Caerffili, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 23 Mai 2022.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Bupa Dental Care, Caerffili, yn bractis bach, croesawgar a oedd yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a boddhaol i'w gleifion. Roedd y practis wedi'i leoli ar lawr cyntaf adeilad a oedd yn rhan o res o siopau a bwytai ar gyrion canol tref Caerffili.

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd yn unol â chanllawiau'r llywodraeth i alluogi cleifion i gael eu trin yn ddiogel oherwydd pandemig diweddar COVID-19. Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn modd cwrtais a chyfeillgar yn bersonol ac ar y ffôn. Gwelsom fod cyfrinachedd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal bob amser.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwneud “cynnig rhagweithiol” er mwyn annog y cleifion a allai ddymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny
- Arddangos gwybodaeth i annog cyfathrebu yn Gymraeg a sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog
- Cynnig gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch
- Casglu adborth cleifion yn rheolaidd
- Gweithredu bwrdd gwybodaeth “dywedoch chi, fe wnaethom ni” mewn ymateb i adborth cleifion
- Adolygu'r polisi cwynion i sicrhau bod manylion llawn yn cael eu cynnwys ar gyfer AGIC a sefydliadau eraill a all helpu i wneud cwyn
- Hysbysu darpar gleifion ac ymwelwyr o'r gofynion mynediad ar gyfer y practis a sicrhau bod darpariaeth amgen addas ar gael

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom gleifion yn cael eu trin mewn modd gofalggar a chyfeillgar mewn ystafelloedd triniaeth a oedd yn cadw eu hurddas
- Gwelsom fod y practis yn hybu cyfrinachedd a gwelsom fod sgysiau sensitif neu gyfrinachol yn cael eu trin yn briodol ac mewn modd preifat

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod angen gwelliannau i drefniadau diogelwch tân y practis. Yn benodol, canfuwyd bod yr asesiad risg tân wedi dyddio ers bron i ddwy flynedd. Yn ogystal, nid oedd y camau gweithredu y manylwyd arnynt yn yr asesiad risg wedi'u cwblhau ac ni ddarparwyd diweddariad ar gynnydd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid cwblhau asesiadau risg tân, a rhaid cwblhau'r camau gweithredu gofynnol yn brydlon ac yn amserol yn unol â'r flaenoriaeth
- Llunio polisi rheoli meddyginiaethau ysgrifenedig a pholisi sy'n berthnasol i'r ardal leol ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol
- Cael cadarnhad ysgrifenedig gan y fferyllfa ar gyfer derbyn meddyginiaethau sydd wedi dod i ben
- Bod â ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd bwrpasol i gynnwys polisiau sy'n ymwneud ag ymbelydredd a radiograffeg yn y practis
- Sicrhau bod yr holl staff clinigol sy'n ymwneud â chymryd, datblygu neu gynhyrchu pelydrau-X wedi dilyn hyfforddiant diweddar sy'n cael ei adnewyddu'n rheolaidd
- Arddangos gwybodaeth am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amlygiad i ymbelydredd ïoneiddio i'r cleifion hynny sy'n cael gweithdrefnau pelydr-X
- Ysgrifennu polisiau i sicrhau amgylchedd diogel i gleifion, staff ac ymwelwyr, a'u hadnewyddu'n rheolaidd a'u cytuno gan yr holl staff. Dylai'r rhain gynnwys polisi tân, polisi cynnal a chadw adeiladau, a pholisi a gweithdrefn ar gyfer rheoli risg
- Datblygu 'Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithredoedd Mewnwithiol' ar gyfer echdynnu dant anghywir yn y pecyn cymorth deintyddiaeth
- Cynnal archwiliad sy'n cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05) i sicrhau bod arferion dihalogi yn cydymffurfio

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion deintyddol wedi'u hysgrifennu'n glir ac yn gyfoes ac yn cynnwys manylion triniaeth cleifion
- Cafwyd cydsyniad gwybodus ar gyfer pob un o'r cofnodion deintyddol cleifion a adolygwyd gennym

- Roedd gan y practis ystafell ddihalogi â phob cyfleuster ac roedd gweithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal
- Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cyfarparu'n dda ac yn addas i'r diben gyda pheiriannau hidlo aer ar waith i liniaru yn erbyn risgiau COVID-19

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd gan Bupa Dental Care, Caerffili, dîm mawr o staff rhan-amser ac fe'u gwelsom yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddarparu gofal cleifion. Roedd y rheolwr cofrestredig arfaethedig yn newydd i'r rôl ac roedd yn cael ei gefnogi gan reolwr practis profiadol o bractis cyfagos.

Fodd bynnag, roedd diffyg trefniadaeth yn y practis gan nad oedd gan y practis reolwr parhaol ers tua dwy flynedd. Roedd hyn yn golygu nad oedd gan y practis arweinyddiaeth effeithiol a'r strwythur a llywodraethu angenrheidiol i sicrhau practis effeithlon sy'n cael ei redeg yn dda.

Nid oedd y practis yn defnyddio'r offer a oedd ar gael i wella prosesau gwella a datblygu ymarfer ar ddiwrnod ein hymweliad ac nid oedd archwiliadau'n cael eu cynnal fel mater o drefn.

Ar ddiwrnod ein hymweliad, canfuom fod y rheolwr cofrestredig arfaethedig yn canolbwyntio ar ddarparu rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol i'r tîm ac yn awyddus i wneud y gwelliannau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau a datblygu'r practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella taflen wybodaeth i gleifion y practis yn unol â'r rheoliadau
- Gwella dogfen y datganiad o ddiben, gan ei hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn (neu'n gynt os bydd newid)
- Cwblhau offer datblygu ymarfer, gan gynnwys offeryn deintyddiaeth y Matrics Aeddfedrwydd a'r Offeryn Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET)
- Cynyddu gweithgarwch archwilio i gynnwys rhoi'r gorau i smygu, cadw cofnodion, rhagnodi gwrth-ficrobaidd, ac atal a rheoli heintiau, ochr yn ochr â pholisi ac amserlen archwilio
- Cwblhau arfarniadau staff blynyddol
- Cyflwyno cyfarfodydd staff a gofnodwyd

- Sicrhau bod yr ystod lawn o bolisiau a gweithdrefnau a nodir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ar gael a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u llofnodi gan yr holl staff
- Bod â pholisi cadarn ar gyfer adrodd yn amserol i AGIC am ddigwyddiadau hysbysadwy
- Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau staff wedi'u diffinio'n glir
- Adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rheolaidd ar gyfer staff a sicrhau bod polisi ar waith i wirio addasrwydd staff i weithio

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhaglen hyfforddi bwrpasol fewnol ar gyfer staff i sicrhau hyfforddiant gorfodol sy'n cydymffurfio
- Cefnogaeth gyfagos ar gael gan reolwr practis lleol
- Pecyn cydymffurfio pwrpasol ar gael ar gyfer practisau Bupa Dental Care

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 17 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd deg o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn cael triniaeth yn y practis am fwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

“Dim angen gwelliant.”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mwy o staff yn y dderbynfa.”

“Angen mwy o staff.”

“Ateb y ffôn.”

“Arhosiad byrrach am driniaeth.”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis oherwydd COVID-19. Gwelsom fod sgriniau wedi'u gosod wrth ddesg y dderbynfa i amddiffyn staff ac ymwelwyr. Gwelsom nifer o beiriannau hylif alcohol wedi'u gosod mewn lleoliadau strategol ledled y practis.

Clywsom gleifion yn cael eu sgrinio ar gyfer COVID-19 gan dîm y dderbynfa, a gwelsom fod arwyddion yn y practis i'w gweld ar ddrws y practis a oedd yn atgoffa cleifion ac ymwelwyr o'r gofynion uwch sydd ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn unol â chanllawiau cyfredol y llywodraeth.

Gwelsom fod y man aros yn rhydd o annibendod ac yn olau gyda digon o seddi ar gael i gleifion. Roedd desg y dderbynfa o flaen swyddfa rheolwr y practis.

Gwelsom fod y practis wedi gosod arwydd 'Dim Smygu' ar ddrws y practis.

Gwelsom fod enw'r practis i'w weld yn glir ac roedd enwau a chymwysterau'r gweithwyr deintyddol proffesiynol a oedd yn gweithio i'r practis wedi'u harddangos wrth fynedfa'r practis. Roedd oriau agor y practis hefyd wedi'u harddangos.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob claf a atebodd y cwestiwn fod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer triniaeth pan oedd ei hangen arnynt.

Gwelsom y tîm deintyddol yn trin y cleifion mewn modd urddasol a pharchus. Roedd y staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar eu hymagwedd. Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cadw ar gau pan oeddent yn cael eu defnyddio.

Dywedodd tîm y dderbynfa wrthym y byddai sgysiau preifat neu sensitif yn cael eu cynnal mewn ystafell driniaeth sbâr neu yn swyddfa rheolwr y practis.

Canfuom nad oedd y practis yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig addas i gleifion ac ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Yn ogystal, nid oedd y practis yn gwneud 'cynnig rhagweithiol' o ran darparu gwasanaethau Cymraeg i gleifion. Mae hyn yn golygu nad oedd y cleifion y gallai fod yn well ganddynt gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog yn weithredol i wneud hynny.

Nodwyd bod y practis yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar gyfer y cleifion sy'n siarad ieithoedd eraill. Darparwyd hyn gan y bwrdd iechyd lleol.

Gwybodaeth i gleifion

Nid oedd gan y practis daflenni gwybodaeth ar gael i gleifion. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o wybodaeth gyfyngedig ar gael ar wefan y practis. Gwelsom hefyd nad

oedd gan y practis wybodaeth ar gael i gleifion mewn amrywiaeth o fformatau, megis print bras, Braille neu hawdd ei deall.

Canfuom fod manylion taliadau am driniaeth GIG, yn ogystal â ffioedd preifat, wedi'u harddangos yn y man aros ochr yn ochr â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol. Roedd tystysgrifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos ar y wal yn swyddfa rheolwr y practis. Gwnaethom argymhell bod y rhain yn cael eu symud i fan mwy amlwg y gall cleifion ei weld yn hawdd, fel y gallent fod yn sicr o statws cofrestru'r rhai sy'n eu trin. Cywirwyd hyn ar ddiwrnod ein hymweliad.

Nid oedd y practis yn arddangos tystysgrif gofrestru AGIC gan fod y rheolwr cofrestredig arfaethedig yn newydd i'w swydd ac nid oedd wedi cwblhau ei broses gofrestru eto.

Darparodd rheolwr arfaethedig y practis y datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion ddiweddaraf i ni, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Nid oedd y naill ddogfen na'r llall yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Yn ogystal, ysgrifennwyd y datganiad o ddiben i gydymffurfio â rheoliadau a deddfau Lloegr ac nid oedd yn berthnasol i Gymru.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom y tîm yn gweithio'n galed i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Pe bai apwyntiad yn rhedeg yn hwyr, byddai aelod o dîm y dderbynfa yn hysbysu cleifion am yr oedi. Roedd cleifion yn gallu aildrefnu eu hapwyntiad pe bai hyn yn digwydd.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig arfaethedig wrthym y gellid trefnu apwyntiadau yn bersonol, dros y ffôn neu drwy lenwi ffurflen ar-lein a oedd ar gael ar wefan y practis.

O'r cleifion a ymatebodd i'r cwestiwn ar holiadur AGIC, dim ond pump a atebodd ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan fo angen. Teimlai'r mwyafrif ei fod yn weddol hawdd. Dywedodd un claf fod y cyfnod aros yn rhy hir.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r holiadur yn gwybod sut i gael apwyntiad deintyddol brys y tu allan i oriau arferol pe bai angen un arnynt.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom adolygu cofnodion deintyddol deg claf, ac roedd gan bob un dystiolaeth o gynllunio triniaeth priodol.

Dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymument fod mewn penderfyniadau am eu triniaeth a bod eu deintyddion yn holi am eu hanes meddygol cyn cael unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisiau ar waith yn ymwneud â chyfle cyfartal, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gwelsom arferion da nodedig o ran hyfforddiant gorfodol staff mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Gwelsom fod gan y practis ddolen sain ar gael i gleifion trwm eu clyw.

Fodd bynnag, roedd y practis wedi'i leoli i fyny nifer o risiau ac nid oedd ganddo fynedfa hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Nid oedd gwybodaeth i gleifion am yr anhawster hygyrchedd hwn ar gael yn rhwydd ar wefan y practis nac yn y daflen wybodaeth i gleifion ac nid oedd cleifion yn cael eu hysbysu fel mater o drefn wrth drefnu apwyntiad yn y practis. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym pe bai claf yn hysbysu'r practis o anhawster hygyrchedd, byddai'n cael ei gyfeirio at bractis cyfagos.

O'r ymatebion i'r holiadur, gwelsom fod y rhan fwyaf o gleifion wedi nodi eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, waeth beth fo'u nodwedd warchoddedig.

Atebodd pob claf nad oedd wedi profi gwahaniaethu wrth ddefnyddio'r practis deintyddol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig arfaethedig wrthym y byddai gan gleifion trawsryweddol ffenestr naid ar eu cofnod deintyddol i ddarparu gwybodaeth i staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyfarch yn gywir gan ddefnyddio'r rhagenwau a ffefrir.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom fod y practis wedi arddangos copi o'i bolisi cwynion ar hysbysfwrdd ym man aros y practis. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn cynnwys manylion y cyngor iechyd

cymuned lleol, gweithdrefn 'Gweithio i Wella' y GIG na manylion AGIC. Roedd proses i fanylu ar yr ymateb i gŵyn gyda manylion y sawl a oedd yn gyfrifol am ymchwilio ac amserlen ar gyfer ymateb.

Rhodddwyd ffeil gwynion i ni a ddefnyddir gan y practis. Nid oedd hon yn cynnwys manylion cwynion a oedd yn berthnasol i berchnogion presennol y practis (Bupa Dental Care), gan gyfeirio yn hytrach at y perchnogion blaenorol. Dywedwyd wrthym y byddai cwynion yn cael eu cofnodi ar system electronig bwrpasol. Ar ddiwrnod ein hymweliad, ni chawsom fanylion am gwynion a allai fod wedi cael eu gwneud yn y modd hwn ond dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn gwybod sut i gofnodi cwyn. Dywedodd y rheolwr cofrestredig arfaethedig wrthym y byddai cwynion yn cael eu hasesu ar gyfer themâu cyffredin bob mis i gynorthwyo dysgu a gwella.

Dywedwyd wrthym fod adborth ar y practis yn cael ei gasglu gan gynllun peilot yr ymddiriedolaeth. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd cyfradd boddhad o 84%. Roedd dolen i ddarparu adolygiad peilot yr ymddiriedolaeth ar gael ar wefan y practis.

Nid oedd holiaduron adborth yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar ôl cael eu gohirio oherwydd pandemig COVID-19.

Nid oedd gan y practis fwrdd 'dywedoch chi, fe wnaethom ni' i annog ymgysylltiad cleifion ac nid oedd gwybodaeth wedi'i harddangos ar unrhyw adborth a dderbyniwyd.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd adeilad y practis, er ei fod yn fach, yn addas i'r diben. Roedd yr ystafell aros o faint a chynllun addas ac roedd digon o olau naturiol ynddi. Er bod ystafelloedd triniaeth heb ffenestri, roedd ganddyn nhw burwyr aer a system aerdymheru i sicrhau awyru digonol. Roeddent hefyd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac roeddent yn lân ac yn daclus.

Roedd y lle storio yn y practis deintyddol yn gyfyngedig, ac roedd eitemau stoc yn cael eu storio mewn sawl lleoliad yn y practis, gan gynnwys ardaloedd yn yr ystafell ddihalogi fach.

Roedd y practis yn elwa ar gegin fach i baratoi bwyd. Roedd hon hefyd yn cael ei defnyddio fel man i staff wisgo a thynnu eu gwisg gwaith.

Roedd y brif swyddfa y tu ôl i ddesg y dderbynfa ac yn cael ei defnyddio'n bennaf gan y rheolwr cofrestredig arfaethedig ac ar gyfer storio ffeiliau staff.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â chynnal a chadw ac asesiadau risg ar gyfer y practis deintyddol, a chanfuom fod llawer o'r dogfennau hyn wedi dyddio neu nad oeddent yn gyfredol.

Nid oedd yr asesiad risg iechyd a diogelwch wedi'i gynnal ac nid oedd gan y practis asesiad risg amgylcheddol na pholisi cynnal a chadw adeiladau. Gwnaethom nodi bod yr asesiad risg diweddaraf a gynhaliwyd ar gyfer y practis wedi dyddio ac nad oedd wedi'i ailadrodd ers 2019. At hynny, canfuom nad oedd gan y practis bolisi Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) priodol ar waith.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer atal tân yn y practis. Canfuom fod yr asesiad risg tân diweddaraf wedi'i gynnal ym mis Medi 2019, er bod angen adolygiad blynyddol. Yn ogystal, nid oedd y camau a nodwyd yn ystod yr asesiad risg tân wedi'u cymryd.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y diffoddwyr tân a oedd yn bresennol yn y practis wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar. Roedd y rhain ar gael ym mhob rhan o'r practis ac roeddent o faint a math addas. At hynny, gwelsom dystiolaeth o restrau gwirio diogelwch tân a oedd yn cynnwys gwiriadau wythnosol o ganfodyddion mwg,

adolygiadau dyddiol o'r modd i ddianc o'r practis, ymarferion tân blynyddol ac adolygiadau wythnosol o'r rhagofalon i amddiffyn rhag tân. Canfu adolygiad o hyfforddiant tân y staff fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant boddhaol mewn diogelwch tân. Gwelsom fod gan y practis un swyddog tân wedi'i hyfforddi ar hyn o bryd. Gan fod yr holl staff yn y practis yn rhan-amser, gwnaethom argymhell y dylid penodi ail swyddog tân i sicrhau bod un bob amser yn bresennol yn ystod oriau gweithredu'r practis deintyddol.

Gwelsom fod arwyddion yr allanfa dân wedi'u lleoli'n strategol ym mhob rhan o'r practis a bod arwydd 'dim smygu' yn bresennol ar ddrws ffrynt y practis.

Gan fod y practis wedi'i leoli i fyny nifer o risiau a chyda hyn yr unig ffordd o ddianc pe bai tân yn digwydd, byddem yn argymhell bod y practis yn adolygu'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer gwacáu cleifion a staff yn ddiogel pe bai tân yn digwydd.

Gwelsom fod gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr ddilys wedi'i harddangos yn y man aros. Roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yng nghegin y staff.

Gwelsom fod gan doiled y claf sinc a oedd yn rhydd ac yn dod i ffwrdd o'r wal. Yn ogystal, daeth dŵr yn boeth iawn yn gyflym iawn pan ddefnyddiwyd y tap. Er gwaethaf hyn, nid oedd unrhyw arwyddion yn rhybuddio cleifion o'r risg.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau atal a rheoli heintiau effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o bolisiau a oedd yn ymwneud â hylendid dwylo yn ogystal â gwaredu gwastraff clinigol ac anghlinigol yn gywir a chadw tŷ. Roedd gan y practis hefyd bolisiau penodol ar waith i liniaru'r risgiau a berir gan COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis arweinydd dihalogi, sef aelod o'r tîm nyrsio deintyddol yn y practis. Dangosodd adolygiad o ffeiliau staff fod yr holl staff sy'n gweithio'n glinigol yn y practis wedi darparu tystiolaeth foddhaol o imiwnedd hepatitis B.

Drwy gydol ein hymweliad, gwelsom staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir.

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau dyddiol ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cwblhau a rhaglen gynnal a chadw ddyddiol ar gyfer dihalogi offer, gan gynnwys profi a dilysu rheolaidd ar gyfer yr awtoclafau a'r glanhawyr uwchsonig.

Cawsom dystiolaeth o gontractau sydd ar waith i sicrhau bod gwastraff o'r practis yn cael ei drin a'i waredu'n briodol. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel ac yn briodol mewn bin dan glo. Roedd hwn wedi'i leoli o fewn y twll grisiau ar lawr gwaelod y practis oherwydd pryderon diogelwch lleol. Cesglid gwastraff clinigol yn rheolaidd.

Cawsom yr archwiliad WHTM 01-05 diweddaraf. Er bod angen ei gwblhau'n flynyddol, nid oedd hyn wedi'i wneud o fewn y 12 mis diwethaf ac felly roedd angen ei ailadrodd.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom nad oedd gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau priodol ar waith. Felly, ni allem fod yn sicr bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a phrosesau cywir ar gyfer storio, defnyddio a thrin meddyginiaethau'n ddiogel yn y practis.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a dadebru. Er bod polisi ar gael, canfuom fod hwn yn bolisi Bupa generig nad oedd yn benodol i'r practis. Felly ni allem fod yn sicr y byddai staff yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer argyfwng meddygol yn y practis deintyddol.

Roedd y cyffuriau ac offer brys yn y practis wedi'u storio'n briodol ac mewn dyddiad ac mewn man a oedd yn hawdd i'r staff ei gyrraedd. Gwelsom dystiolaeth fod cyffuriau ac offer brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant cyfredol mewn Cynnal Bywyd Sylfaenol.

Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf dynodedig. Fodd bynnag, gan fod yr holl staff yn rhan-amser, byddem yn annog y practis i ystyried a oedd hyn yn darparu cyflenwad addas ar gyfer cymorth cyntaf pe bai staff yn absennol ac yn sgil patrymau shifftiau.

Gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig am y trefniadau ar gyfer cael gwared ar feddyginiaethau sydd wedi dyddio. Dywedwyd wrthym y byddai meddyginiaethau a oedd wedi dyddio yn cael eu cludo i'r fferyllfa leol i'w gwaredu. Er hynny, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis yn cadw cofnod o'r meddyginiaethau a waredwyd yn y modd hwn.

Gwelsom y byddai padiau presgripsiwn yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol i lefel briodol ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Dywedwyd wrthym mai deintydd yn y practis oedd yr arweinydd diogelu dynodedig. Roedd yr unigolyn hwn wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i Lefel 3 i gyflawni'r rôl hon yn briodol.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisi diogelu priodol ar waith. Gwelsom fod y polisi wedi'i adolygu'n ddiweddar a'i ddyddio o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, gwelsom fod gan y practis bolisi a hyrwyddwr 'heb fynychu' ar waith. Roedd hyn yn annog clinigwyr i nodi'r plant a phobl ifanc hynny a allai golli apwyntiadau dro ar ôl tro a'u diogelu pan oedd hynny'n briodol.

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth wedi arddangos siart lif gyda manylion y camau i'w cymryd pe bai staff yn amau bod plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn perygl. Roedd y siart hon hefyd yn cynnwys rhifau ffôn cysylltiadau lleol i adrodd am bryder yn brydlon. Dywedwyd wrthym y gallai staff fynd at dîm sydd wedi'i leoli yn y brif swyddfa am gymorth pellach pe bai angen.

Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau gwiriadau boddhaol cyn cael eu cyflogi. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a oedd yn fanylach ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion. Fodd bynnag, nid oedd un aelod o staff wedi cwblhau gwiriad o fewn y pum mlynedd diwethaf. Dywedwyd wrthym y byddai e-bost yn cael ei anfon o'r brif swyddfa pan fyddai angen adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i annog rheolwr y practis i'w hailadrodd.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod offer clinigol yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Roedd yn ymddangos bod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r offer a ddarperir. Amlygwyd hyn gan becyn sefydlu cynhwysfawr ar gyfer dechreuwyr newydd a ddarparwyd gan Bupa.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod offer radiograffig yn cael eu defnyddio'n ddiogel a chanfuwyd bod hyn yn cydymffurfio'n bennaf â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Roedd y goruchwyliwr amddiffyn rhag ymbelydredd yn ddeintydd yn y practis. Roedd gan y practis gontract ar waith gyda chwmni penodol i gyflawni'r rôl sy'n ofynnol gan gynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau cyflogwyr priodol ar waith ar gyfer defnyddio ymbelydredd ìoneiddio a oedd yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r staff yn glir.

Er nad oedd y practis yn defnyddio'r offeryn gwella ansawdd ar gyfer ymbelydredd ìoneiddio a ddarparwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), rhoddwyd tystiolaeth i ni o waith asesu a sicrhau ansawdd parhaus y radiograffau a gymerwyd yn y practis.

Roedd y cyfarpar radiograffig a ddefnyddir yn y practis wedi'i gofrestru'n gywir gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd.

Nid oedd gan y practis ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd gynhwysfawr a byddai polisïau sy'n ymwneud â radiograffeg yn y practis yn elwa o gael eu hadolygu a'u diweddarau yn ôl yr angen.

Ar ddiwrnod ein hymweliad, ni chawsom dystiolaeth o hyfforddiant diweddar a gyflawnwyd gan staff nyrsio deintyddol y practis ar y Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd rhai biniau offer miniog wedi'u gosod yn gywir yn yr ystafelloedd triniaeth. Gallai hyn gynyddu'r risg o anaf offer miniog i staff. Codwyd hyn gennym ar ddiwrnod ein hymweliad a chawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig arfaethedig fod biniau newydd eisoes wedi'u harchebu y gellid eu gosod ar y wal mewn modd saff a diogel.

Gofal effeithiol

Gofal diogel sy'n effeithiol yn glinigol

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu, diagnosio a thrin cleifion. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad o ddiben a ddarparwyd i ni fel rhan o'r arolygiad. Nid oedd y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac, yn hytrach, fe'i hysgrifennwyd yn unol â'r deddfau sy'n llywodraethu Lloegr ac nid Cymru. Yn ogystal, roedd angen adolygu sylweddol oherwydd newidiadau mewn rolau a chyfrifoldebau staff yn y practis.

Gwelsom nad oedd y staff bob amser yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a'u rolau yn y practis. Roeddem yn teimlo bod hyn oherwydd diffyg arweinyddiaeth cyn penodi'r rheolwr cofrestredig arfaethedig.

Gwelsom dystiolaeth y byddai staff yn cael ac yn dilyn arweiniad a chyngor proffesiynol lle bo angen ac roedd polisiâu'r practis yn adlewyrchu hyn. Cafwyd tystiolaeth bellach o hyn drwy gadw at y canllawiau COVID-19 diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru yn ogystal â safon uchel o gadw cofnodion gan bob clinigydd.

Gwelsom nad oedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithredoedd Mewnwithiol i atal tynnu dannedd anghywir.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Ar y cyfan, canfuom nad oedd y practis yn cynnal digon o weithgarwch archwilio. Ar ddiwrnod ein hymweliad, ni chawsom unrhyw dystiolaeth o weithgarwch archwilio diweddar. Dywedwyd wrthym fod archwiliad o ragnodi gwrthfotigau wedi'i gynnal. Fodd bynnag, nid dyma'r archwiliad cydnabyddedig a argymhellwyd gan AaGIC ac nid oedd wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Ni ddarparwyd unrhyw weithgarwch archwilio arall i ni. At hynny, nid oedd gan y practis bolisi nac amserlen archwilio ar waith.

Gwnaethom holi'r rheolwr cofrestredig arfaethedig ynghylch yr offer a ddefnyddir i sicrhau gwelliant parhaus yn y practis deintyddol, a dywedwyd wrthym na ddefnyddiwyd offeryn deintyddiaeth y Matrics Aeddfedrwydd na'r Offeryn Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET) a ddarparwyd gan AaGIC.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gan y practis bolisi cyfrinachedd staff ar waith a'i fod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd y practis yn defnyddio system rheoli cofnodion electronig ar gyfer cofnodion deintyddol cleifion. Dim ond trwy gyfrinair awdurdodedig yr oedd hon ar gael ac roedd yn sicrhau cywirdeb gwybodaeth gyfrinachol am gleifion.

Gwelsom fod ffolderi personol y staff yn cael eu storio'n ddiogel o fewn cwpwrdd dan glo yn swyddfa'r rheolwr cofrestredig arfaethedig.

Cadw cofnodion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu sampl o ddeg o gofnodion deintyddol cleifion. Gwelsom fod y cofnodion a gedwir o safon uchel. Roedd yr holl nodiadau a adolygwyd yn glir ac yn ddarllenadwy ac yn cynnwys digon o wybodaeth am y claf, ei hanes meddygol a'r driniaeth ddeintyddol yr oedd wedi'i chael.

Gwelsom fod hanes cymdeithasol cleifion yn cael ei gofnodi, gan gynnwys cymeriant alcohol a'r defnydd o dybaco, gan alluogi clinigwyr i nodi'r cleifion hynny sydd â risg uwch o ganser y geg. Gwelsom fod hanes meddygol cleifion yn cael ei ddiweddarau ar bob cwrs o driniaeth.

Cawsom ein sicrhau o ganfod bod gan y practis bolisi cydsynio ar waith. Roedd hwn wedi'i adolygu'n ddiweddar a chydymffurfiwyd ag ef.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r practis yn rhan o'r grŵp corfforaethol mwy o bractisau Bupa Dental Care. Roedd rheolwr practis newydd wedi'i benodi'n ddiweddar ac ef hefyd oedd y rheolwr cofrestredig arfaethedig ar adeg ein harolygiad. Roedd gan reolwr arfaethedig y practis gyfrifoldeb cyffredinol dros y gwaith o reoli'r practis. Gan ei fod yn newydd i'r rôl, cafodd ei gefnogi gan reolwr cofrestredig profiadol o bractis cyfagos. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd y rheolwr cofrestredig arfaethedig wedi'i gofrestru gydag AGIC eto. Cyn penodi'r rheolwr cofrestredig arfaethedig, roedd y practis heb reolwr practis am gyfnod o tua dwy flynedd.

Cefnogwyd rheolwyr cofrestredig yn eu rolau gan reolwr ardal a tîm penodol o'r brif swyddfa.

Ar adeg ein hymweliad, roedd gan y practis bedwar deintydd, dau hylenydd a chwe nyrs ddeintyddol. Roedd yr holl staff yn rhan-amser. Roedd pob gweithiwr deintyddol proffesiynol cymwys wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn darparu gofal o fewn ei gwmpas ymarfer. Dywedwyd wrthym fod gan y practis swyddi gwag ar gyfer nyrsys deintyddol a derbynyddion ar hyn o bryd.

Gwelsom y tîm yn cydweithio'n dda i drin y cleifion. Roedd y cyfathrebu'n effeithiol ac yn broffesiynol. Roedd yr arweinyddiaeth a ddarparwyd gan y rheolwr cofrestredig arfaethedig yn ymddangos yn effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn ddibynnol iawn ar bolisiau a gweithdrefnau a ddarperir gan dîm y brif swyddfa. Er bod y rhain ar gael yn rhwydd i staff drwy system ar-lein, canfuom nad oedd llawer o'r polisiau sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ar gael. Roedd llawer o bolisiau yn rhai cyffredinol ac nid oeddent yn benodol i'r practis nac yn berthnasol i Gymru.

Y rheolwr cofrestredig arfaethedig oedd yn bennaf gyfrifol am gyflwyno hysbysadau o unrhyw ddigwyddiadau i AGIC. Pan holwyd ef, nid oedd yn ymddangos ei fod yn ymwybodol o'r digwyddiadau hynny yr oedd angen hysbysu AGIC amdanynt.

Dywedwyd wrthym nad oedd cyfarfodydd tîm ffurfiol rheolaidd yn cael eu cynnal cyn penodi'r rheolwr cofrestredig arfaethedig. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd y byddai cyfarfodydd tîm ffurfiol bellach yn cael eu cynnal bob yn ail fis. Byddai'r rhain yn cael eu cofnodi a byddai'r dyddiadau'n cael eu hamrywio i sicrhau bod yr holl staff

yn cael y cyfle i fod yn bresennol. Yn ogystal, byddai staff yn cael cyfarfodydd boreol byr cyn dechrau'r diwrnod i ledaenu unrhyw wybodaeth bwysig.

Y gweithlu

Dywedodd y rheolwr cofrestredig arfaethedig wrthym am y trefniadau ar gyfer recriwtio staff newydd. Dywedwyd wrthym y byddai swyddi gwag yn cael eu hysbysebu ar wefannau chwilio am swyddi lleol, yn ogystal â thrwy hysbysebion a drefnwyd gan dîm y brif swyddfa.

Gwelsom fod gan y practis gyfres o bolisiau ar waith i gefnogi recriwtio, sefydlu a chadw staff. Cawsom enghreifftiau o amserlen sefydlu a hyfforddi gynhwysfawr a oedd yn benodol i Bupa Dental Care. Roedd hyn yn galluogi'r practis i asesu cymhwysedd staff newydd ac yn cefnogi eu hyfforddiant, eu dysgu a'u datblygiad. Byddai cymhwysedd yn cael ei asesu ar ôl tri mis a'i ailasesu bob mis, pe bai angen.

Dywedwyd wrthym, er bod Bupa Dental Care yn ariannu indemniad ac yn darparu pecyn hyfforddi llawn i'w staff nyrsio deintyddol, mai pob unigolyn oedd yn gyfrifol am ffioedd cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig arfaethedig wrthym fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio'n rheolaidd oherwydd swyddi gwag yn y tîm. Dywedwyd wrthym y byddai'r gwiriadau perthnasol yn cael eu cynnal gan yr asiantaeth ddeintyddol i sicrhau bod unigolion yn addas i weithio yn y practis, a byddai cadarnhad yn cael ei roi i'r rheolwr cofrestredig arfaethedig.

Gwelsom dystiolaeth o ffeiliau staff a oedd yn cynnwys manylion gwiriadau staff, gan gynnwys statws imiwneiddio hepatitis B a gwiriadau hunaniaeth, yn ogystal â chopïau o dystysgrifau cymhwyster a hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, nid oedd y ffeiliau'n ymddangos yn gydlynol, ac roedd yn anodd dod o hyd i fanylion hyfforddiant gorfodol.

Roeddem yn gallu pennu bod yr holl staff wedi dilyn hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol yn ddiweddar, yn ogystal â hyfforddiant mewn atal a rheoli heintiau a diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig arfaethedig am fanylion yr hyfforddiant yr oedd yn mynd i'w gyflawni er mwyn sicrhau ei fod yn gallu rheoli'r practis deintyddol yn effeithiol. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant i gynorthwyo gyda'r rôl hon yn cael ei ddarparu trwy blatfform hyfforddi pwrpasol a ddarperir gan Bupa. Cynigiwyd cymorth gan gymheiriaid hefyd ac anogwyd rheolwyr a oedd yn newydd i'r rôl i fynychu practisau cyfagos i gysgodi rheolwyr profiadol.

Gwelsom nad oedd y staff wedi derbyn arfarniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywedwyd wrthym y byddai'r rhain yn cael eu cynnal yn y misoedd dilynol â'r rheolwr cofrestredig arfaethedig bellach yn ei swydd.

Cawsom dystiolaeth o bolisi chwythu'r chwiban staff a pholisi o'r enw 'Siaradwch' a oedd yn annog staff i godi meysydd o arferion gwael gyda rheolwyr. Dywedwyd wrthym fod staff hefyd yn gallu codi unrhyw faterion a oedd yn peri pryder yn ystod y cyfarfodydd ('sgrymiau') a gynhaliwyd yn y bore ac y gallent fynd at y rheolwr cofrestredig arfaethedig neu aelod o dîm y brif swyddfa pe dymunant.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

